



Teitl y Swydd: Arferion Gweithdy Uwch Dechnegydd

Uned/Ysgol: Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd

Gradd: 4AB

HERA: CST73

Prif bwrpas y rôl

Byddwch wedi'ch lleoli ar gampws Llandaf a byddwch yn canolbwyntio ar ddarparu cefnogaeth dechnegol ar gyfer gweithgareddau gweithdy creadigol, cynnal gweithdai diogel a chroesawgar a chynorthwyo'r timau arddangos academiaidd a thechnegwyr i ddarparu hyfforddiant technegol i fyfyrwyr.

Wedi'ch lleoli yn ein gweithdai pren a metel, byddwch yn cynnal gwaith cynnal a chadw arferol ar offer ein gweithdy. Byddwch yn sicrhau bod diogelwch gweithdai yn cael blaenoriaeth drwy ysgrifennu, adolygu a gweithredu asesiadau risg a rheolaethau diogelwch, cynnal sesiynau sefydlu diogelwch sylfaenol, goruchwyllo'r gweithdy am gyfnodau byr a chynorthwyo arddangoswyr academiaidd a thechnegwyr yn ystod eu sesiynau technegol a addysgir.

Mae dysgu, ymchwil ac arloesi yn Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd (CSAD) yn aml yn seiliedig ar ymarfer, yn arbrol ac yn brofiadol. Mae'n ddibynol ar reolaeth gadarn a gwybodys o bob ardal gweithdy a stiwdio sy'n galluogi darparu cyfleoedd effeithiol ar gyfer datblygu sgiliau. Mae'r Uwch Dechnegydd, o dan reolaeth linell y Rheolwr Adnoddau, yn cefnogi rhedeg gweithdai CSAD yn ddiogel ac yn llyfn.

Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol

1. Sicrhau darpariaeth o fannau gweithdy o safon a mynediad myfyrwyr at ddeunyddiau ac offer trwy gynnal a chadw offer gweithdy a stoc offer yn gadarn.
2. Darparu cyflwyniadau ac arddangosiadau ar ddefnyddio offer yn ddiogel.
3. Cyflawni tasgau cynnal a chadw a chadw tŷ arferol o fewn maes cyfrifoldeb dynodedig a chynghori'r Ysgol ar unrhyw broblemau gydag offer.
4. Cefnogi'r arddangoswyr technegwyr, ymgymryd â phryniannau offer a deunyddiau, gan sicrhau eu bod yn unol â rheoliadau a gweithdrefnau'r Brifysgol.
5. Sicrhau bod yr holl offer o fewn y maes/meysydd cyfrifoldeb yn eu lle ac yn gweithredu'n effeithiol ac yn ddiogel a chynnal rhestr eiddo o asedau.
6. Paratoi a gweithredu amserlenni gwaith tŷ a chynnal a chadw.



7. Datblygu a chynnal eich sylfaen sgiliau a'ch gwybodaeth eich hun, gan sicrhau eich bod yn gyfredol â thechnegau a datblygiadau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. Cymhwyso gwybodaeth newydd i arddangosiadau a chefnogi myfyrwyr.
8. Ymgysylltu â systemau CSAD a phrosesau asesu cymhwysedd gweithdai i bennu a chofnodi gallu myfyrwyr i ddefnyddio offer penodedig yn annibynnol.
9. Cynorthwyo gyda llwyfannu sioeau gradd blynyddol CSAD.
10. Sicrhau bod Polisi Iechyd a Diogelwch CSAD yn cael ei barchu a'i ddilyn, gan gynnwys:
 1. Gwahardd gweithgareddau anniogel.
 2. Diogelu unrhyw weithgaredd peryglus drwy broses asesiadau risg.
 3. Ysgrifennu asesiadau risg yn ôl yr angen o fewn y maes gweithredu ac ar brosiectau traws-ysgol, yn ôl yr angen.
 4. Cynnal cofrestrau iechyd a diogelwch, sy'n ymwneud â defnydd myfyrwyr o offer a phrosesau.
 5. Asesu diogelwch yr holl arddangosfeydd mewnol, gan gynnwys Sioeau Gradd, ysgrifennu'r asesiadau risg perthnasol gan ystyried canllawiau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.
11. Unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol eraill a allai fod yn ofynnol o bryd i'w gilydd.



Manyleb person

Cymwysterau hanfodol / Aelodaethau proffesiynol

1. Cymhwyster lefel 5 mewn disgyblaeth sy'n berthnasol i waith coed a chymwysiadau creadigol gwaith metel, neu brofiad cyfatebol y gallir ei ddangos.

Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol

1. Sgiliau technegol / arbenigol y gallir eu dangos mewn disgyblaeth berthnasol a diddordeb profedig mewn datblygu sgiliau'n barhaus.
2. Gwybodaeth gynhwysfawr am ystyriaethau diogelwch sy'n ymwneud â chymwysiadau creadigol mewn gwaith pren a metel.
3. Profiad o ysgrifennu asesiadau risg a gweithredu rheolaethau diogelwch mewn amgylchedd gweithdy perthnasol.
4. Y gallu i wneud gwaith cynnal a chadw arferol ac atgyweiriadau bach ar offer gweithdy.
5. Y gallu i gyflwyno sesiynau sefydlu diogelwch offer.
6. Y gallu i gyfathrebu'n dda a chyflwyno materion mewn modd clir a chryno.
7. Y gallu i weithio'n ymarferol fel rhan o dîm i gyflawni nodau o fewn amserlen benodol.
8. Y gallu i gymhwyso gwybodaeth am faterion iechyd a diogelwch perthnasol.
9. Y gallu i ddangos ymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Dymunol

1. Profiad o weithio mewn amgylchedd addysgol.
2. Cymhwyster neu dystiolaeth o hyfforddiant mewn iechyd a diogelwch.

Gofynion sgiliau Cymraeg

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar



ein llyfryn: [Lefelau sgiliau iaith Gymraeg](#). Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos hyn yn eich ffurflen gais ar-lein.

Lefel iaith a disgrifiwr cyffredinol	Gwranddo	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
A1 – Dechreuwr Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.				
A2 - Defnyddiwr sylfaenol Yn gallu delio â gwybodaeth syml, uniongyrchol a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol.				
B1 - Defnyddiwr canolradd Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith.				
B2 - Defnyddiwr canolradd uwch Gallaf fynegi fy hun yn y Gymraeg ar amrywiaeth o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs gyda siaradwr brodorol.				
C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.	Dymunol	Dymunol	Dymunol	Dymunol
C2 - Prif ddefnyddiwr Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn y Gymraeg.				

Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Nid oes angen gwiriad DBS ar gyfer y swydd hon.

Gwybodaeth ategol

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a'r manyleb person hwn fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi



sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.